# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-13-09 Papur 1: 6 Hydref 2009

### Deisebau newydd

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir gryno am bob un o'r deisebau a gafodd eu trafod am y tro cyntaf gan y Pwyllgor ar 6 Hydref 2009.

### (i) P-03-208 Siroedd hanesyddol

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyfarwyddo'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru i gynnal adolygiad o'r ffiniau sirol a gedwir yng Nghymru. Dylai'r adolygiad hwn ystyried diwygio'r ffiniau sirol a gedwir ar hyn o bryd i gyd-fynd â ffiniau'r 13 o siroedd hanesyddol.

### Cefndir

Cynigwyd y ddeiseb hon gan Owain Vaughan, a chafwyd 23 o lofnodion. Mae'r deisebwr wedi paratoi datganiad ategol, sydd wedi'i atodi fel rhan o PET (3)-13-09 Papur 1A.

### (ii) P-03-216 Triniaeth IVF

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i lunio proses ffurfiol a fydd yn arwain at weithredu'n llawn ganllawiau clinigol CG11 y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol ar ffrwythlondeb (a gyhoeddwyd yn 2004), gan gynnwys ei argymhelliad i ddarparu hyd at dri chylch llawn o IVF. Dylai tri chylch llawn fod ar gael am ddim gan y GIG.

**Cefndir**

Cynigwyd y ddeiseb hon gan Kara Ellard, a chafwyd 4241 o lofnodion.

**(iii) P-03-230 Diwrnod Rhyngwladol Gwrthwynebwyr Cydwybodol**

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gydnabod y traddodiad cryf o wrthwynebu cydwybodol yng Nghymru, drwy nodi Diwrnod Rhyngwladol Gwrthwynebwyr Cydwybodol ar 15 Mai bob blwyddyn fel digwyddiad blynyddol.

**Cefndir**

Cynigwyd y ddeiseb hon gan Cynefin y Werin / Common Ground, a chafwyd 14 o lofnodion. Mae'r deisebwyr wedi paratoi datganiad ategol, sydd wedi'i atodi fel rhan o PET (3)-13-09 Papur 1A.

**(iv) P-03-236 Y siarter i wyrion ac wyresau**

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i fabwysiadu siarter i wyrion ac wyresau ac i wneud y siarter yn orfodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol a gyflogir i warchod lles plant.

**Cefndir**

Cynigwyd y ddeiseb hon gan Grandparents Apart Wales, a chafwyd 19 o lofnodion. Mae'r deisebwyr wedi paratoi datganiad ategol, sydd wedi'i atodi fel rhan o PET (3)-13-09 Papur 1A.

**(v) P-03-248 Gwella mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus i bobl sydd at anableddau**

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn credu y dylai trafnidiaeth gyhoeddus fod ar gael i bobl sydd ag anableddau. Rydym felly yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno cynllun gweithredu i sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru ar gael i bawb.

**Cefndir**

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan y Gymdeithas Multiple Sclerosis, a chafwyd 789 o lofnodion. Mae'r deisebwr wedi paratoi gwybodaeth ategol, sydd wedi'i hatodi fel rhan o PET(3)-13-09 Papur 1A.

**(vi) P-03-251 Gwahardd gwelyau haul**

**Geiriad y ddeiseb**

Deiseb i wahardd gwelyau haul heb oruchwyliaeth sy'n gweithio ar arian parod yng Nghymru ac i wahardd pobl ifanc o dan 18 mlwydd oed rhag eu defnyddio.

**Cefndir**

Cynigwyd y ddeiseb hon gan Tenovus, a chafwyd mwy na 1,500 o lofnodion.  Mae'r deisebwr wedi paratoi gwybodaeth ategol ynglŷn â'r ddeiseb, sydd wedi'i hatodi fel rhan o PET(3)-13-09 Papur 1A.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Hydref 2009**